

Glas

Bwletin misol
Llên
natur
Rhif 163
Medi 2021

gan gynnwys Clwb y Llygaid Bach, adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn



Llun Dys Griffiths
Copor bach Llansannan
26 Gorffennaf 2021

Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan **Gymdeithas Edward Llwyd**

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wikipedia
Cysylltwch â ni trwy **llennatur@yahoo.co.uk**



Dreinafal ar Brom Aberystwyth!

Dyma blanhigyn a welodd Harri Lloyd ar Brom Aberystwyth ym mis Gorffennaf eleni. Fel llawer o blanhigion teulu'r *Solanaceae*, mae yna rhywbeth o'r nos am y dreinafal **Datura** ^{Wikipedia} **stramonium**. Dydych chi byth yn gwybod yn lle mae nhw'n mynd i ymddangos (mae hadau'r dreinafal yn aros ynghwsg am flynyddoedd), ac er bod llawer o'r teulu yn fwytdwy (tatws, tomato) mae nhw hefyd yn wenwynig iawn (tatws eto pan yn wyrdd, codwarth), neu'n effeithio ar y system nerfol (tybaco)...


☀☀☀ Stori neu draddodiad yn Llydaw: Priodasau yn arfer cynnwys pentrefi cyfan. Dawnsio o dŷ i dŷ. Ac os oedd prinder seidar, roeddau nhw'n cymysgu rhywfaint o'r *datura* efo fo! Codi hwylia pawb, yn ôl pob sôn!

Brenda Jones





Dyma ddau gofnod o'r Tywyddiadur:

Mae'n debyg eu bod nhw'n fwy tebyg o ymddangos o nunlle ar ôl tywydd poeth:

 1969 *Datura stramonium* L. (Thorn-apple). Leighton [Sir Drefaldwyn], Mrs. DAVID EVANS per Mrs. WORTHINGTON. It is strange that only two records of this species should have come in after the hot, dry summer. *Nature in Wales Mawrth 1970 7(12 1)*

Ac yn ôl Kilvert (rheithor Cleirwy, Powys, am gyfnod) arferid ei ysmygu yn Oes Fictoria:

 The morning was grey and rainy Mrs F Dew gave me some stramonium *datura cigarettes* for Dora. *Dyddiadur Y Parch Francis Kilvert (Cyf 3: gol: W Plomer)*



Gwasgarog yw ei ddisbarthiad yng Nghymru ond dydi'o ddim yn ddieithr i Aberystwyth! (aeth coch)

Storm Medi 1826 a thrafferthion y llongau



7 Medi 1826 lau. Diwrnod cymylog gwyllt, ac yn bwrw Cawodydd bychain o wlaw ar ol Gwynt trwm iawn neithiwr a gwlaw. **Chwythodd Long dau hwylbren o'r Towyn, ac ai [sic] taflodd ar ei hochor a'r draethell yn agos i drwyn y Penrhyn.** Y Meibion efo'r Clawdd yn y Tymawr hyd amser Ciniaw. Yn mynd wedi i wneud pen *Dâs Gwair y Morfa* *Dyddiadur Owen Edwards, Fron Olau, Penmorfa (Archifdy Gwynedd, Caernarfon)*

Daeth y cofnod prin hwn i'r fei yn nyddiadur Owen Edwards, Prenteg, yn nodi, i rai sy'n nabod eu llongau, math a maint llong a allai laniu yn Tywyn. 'Towyn' oedd yr enw ar y lle y tyfodd yn Borthmadog yn ddiweddarach. Yn y Tywyn hwn y cafodd OE lawer o'i nwyddau trwm megis calch, glo a choed.

24 9 1825 Wil Sion yn dwad a thair Siwrna o Galch o'r Towyn.
9 5 1826 Yn mynd i'r Towyn i nol hanner Tunell o Glo [sic]
9 12 1824 Fi yn mynd i'r Towyn i edrych Coed at Feudy'r Morfa



Roedd i'r llong ddau hwylbren, felly mae'n debygol mai *schooner*, neu efallai *briganteen* [brig], oedd y llong, efallai rhyw 50-150 t. Yr oedd y mathau yma o longau yn addas i'w hwyllo mewn dyfroedd cyfyng gyda chriwiau bach - poblogaidd iawn ym Mhorthmadog. *Hywel Madog a Rwrth Tomos*

Ar gyfer cargo, teithwyr a physgota oedd y sgwner ^{Wikipedia} **Sgwner** tra bu'r brig ^{Wikipedia} **Brig** yn long cargo safonol.

Mae'n werth nodi'r storm (meddai Hywel). Storm 'lweydydd' glasurol; pwysedd isel i'r gogledd, glaw trwm yn gysylltiedig â 'front' yn raddol yn troi'n gawodydd gyda'r gwynt yn troi am y gogledd. Y mae'n amlwg fod gwynt gogledd-orllewin wedi chwythu'r llong o Borthmadog i gyfeiriad Penrhyn. Megis cychwyn oedd harbwr Port yn y cyfnod yma. Gellir damcaniaethu bod y llong ar angor, yn hytrach nag ynghlwm i'r cei a'i bod wedi llusgo neu gollu ei hangor. Os oedd y llong yn wag fe fuasai hyn wedi hwyluso pethau - mae cofnod ei bod ar ei hochor yn awgrymog o hyn. Mae'n debygol y bod llai o waddod yn yr aber yn y cyfnod yma oherwydd newydder y Cob a buasai digon o fôr rhwng Port a'r Penrhyn i'r llong nofio'n rhydd. *Hywel Madog*

Mi roedd hi'n dipyn o storm - Gwynt gogleddol o'r tir 'offshore' yn 'Porthmadog' – at y tir 'onshore' ym Mhorth y Nant:

7 Medi 1826: llong y JAMES HOLMES: *blown on shore at the entrance of the Voryd river* [nodwyd Lleyan Peninsula, Porth y Nant]

R & B Larn: Shipwreck Index of the British Isles



Pry hofran marmalêd
Epsyrphus balteatus

Scott Saunders
Plas Cadnant
1 Awst 2021

PRYF HOFROL MARMALÊD

(i addasu'r enw *S. marmalade hoverfly*)



Gesh i'r un cyntaf eleni yn yr ardd (Waunfawr) heddiw hefyd. Hawdd ei adnabod wrth yr hynodwedd o stribedi tenau rhwng y rhai tew. Mae hwn yn rhywogaeth ddiddorol - er fod yna boblogaeth arhosol yma os ydi'r gaeaf yn ffafriol, mae'r mwyafrif yn mudo yma o ogledd Affrica fel mae'r haf yn mynd yn ei flaen ac yn mudo yn ôl wedyn – yn union fel y wrenno! Pwy fase'n meddwl bod y fath stori yn perthyn i bryf bach:




The Natural History of Hoverflies gan Rotheray a Gilbert “The life cycles of polyvoltine [mwy nag un hedfaniad y flwyddyn] hoverflies such as *E. balteatus* differ from those of other syrphines in having an adult reproductive rather than a larval ^{Wikipedia} diapause. To avoid the cold winter of northern Europe, like swallows, most individuals migrate south. From the southern European and North African overwintering refuges..., females emerge

in the early spring of the following year although their ovaries have been growing slowly during the winter, they usually require pollen meals to complete development, after which they lay eggs among the first spring flush of aphids. Meanwhile, spring starts in more northerly latitudes, and brings with it another flush of aphids. The adults from the first generation mate and females migrate north to take advantage of this new source of prey. As the wavefront of the start of spring moves north up through Europe, so hoverflies follow until they arrive in northern latitudes in July, where they breed one final time. The adults from this final generation mate and again mainly females begin the long trek back to overwintering quarters ready to begin the cycle again in the following spring. The scale and degree of these migrations is not yet clear, both in terms of the proportion of individuals taking part, or the distance they travel. However the fact that hoverflies migrate at all and over such distances is quite remarkable, given their fragility and limited behavioural repertoire in comparison with swifts and swallows.

In mild winters, especially on the continent but also in the UK, some late emerging adult *E. balteatus* can overwinter as adults: females can sometimes be found feeding at flowers on mild winter days, and in the spring, dark greasy females can be seen. The greasy appearance is due, perhaps, to the partially used fat stores that would otherwise have fuelled migration. A cold hardiness a female *E. balteatus* is weak: Their bodies begin to freeze at -8° C and they die at almost the same temperature, between -8 and -9° C.

Fel mae'r pryf yn llun Scott, mae hwn yn cymryd paill yn hytrach na neithdar: “Over and above body size, there is an additional factor at play affecting mouthpart size and shape: this is dietary specialisation for pollen or nectar, since some species are more or less specialised to take pollen, whereas the others take mostly nectar. The importance of the interseudotracheal grooves for taking up and suspending pollen suggests that the feeding efficiency of a particular species might relate to the number of these grooves on the labella [y tafod]. This appears to be the case. Pollen specialists such as *Epsyrphus balteatus* whose diet has been measured at more than 90% pollen, have relatively large labella with numerous grooves. In contrast, *Eristalis spp.* and *Rhingia campestris*, with 60 to 90% nectar in the diet have smaller labella with fewer pseudotracheae, very few in the latter species.” (Rotheray GE & Gilbert F)

Fedrwch chi ddod o hyd i'r ddau bry marmalêd ymhlith rhain?




Mae llawer o wybodaeth i'w gael ar y we. Mae grŵp fel **EcoRecord** yn ymfalchio yn eu 178 cofnod o bryfyd hofrol gwahanol ar gyfer ardal Birmingham. Mae'n amlwg ei bod hi'n bosibl ychwanegu at y ddau boster hyn. (Hefyd, **Bwletin 128 tudalen 7**)



Fedrwch chi ein helpu ni i ychwanegu at y poster cyntaf hwn am bryfyd hofrol o Gymru? Tud.7

Pigion yr haf o "Heddiw Mewn Hanes"

HEDDIW MEWN HANES 1759

 Dau le - un dyddiad. Mae'r Tywyddiadur (o lle tynni'r y wybodaeth ar gyfer y nodwedd Heddiw Mewn Hanes) yn adnodd sydd yn caniatâu cymhariaeth o brofi'r tywydd gan bobl wahanol yr un pryd ond o un pen y 'wlad' i'r llall. Dyma ddau gofnod o gyfnod o bwysedd uchel dros Brydain gyfan mae'n debyg.

18/7/1759

Lle: East Hoathly, Sussex

Ffynhonnell: Diary of a village shopkeeper

Nodiadau: *came home about 5.30 and I think never rode when it was so intense hot as it was today about 10.40*

Amser cynnar yn y dydd i gyrraedd anterth o wres?

Dyddiad: 18/7/1759


Lle: Llanfechell

Ffynhonnell: Dyddiadur William Bulkeley, Brynddu, Llanfechell, Môn (gyda chaniatad Adran Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor)

Nodiadau: *July 18th. The Wind S. blowing high, hot & scorching & very Sultry all day tho the Evening was cloudy yet it made no rain*

Roedd cylchdaith Arthur Aikin yn llawn sylwadau manwl o'i gyfnod

HEDDIW MEWN HANES 1796

 Disgrifiad byw o ddyffryn Dolgoch fel yr oedd 220 mlynedd yn ôl, coed i'r brig a gwaith golosg ar droed. Dyma gyfnod cychwyn y Chwyldro Diwydiannol a choed yn cael eu trin am olog i fwyndoddi.

3/8/1796


Lle: Abergynolwyn

Ffynhonnell: Aikin, A (1797) *Journal of a Tour through North Wales*

Nodiadau: *c. August 3 About 3 miles from Towyn we crossed the little river Mathew and proceeded up the narrow valley through which it flows; the mountain on the left was covered with underwood to nearly its summit; and in the one part was agreeably diversified by a long curling line of blue smoke proceeding from some large stacks of wood, making charcoal. We passed the source of the Mathew and at the little village of Abergynolwyn found ourselves on the banks of the river Disynwy [sic] with the steep ascent of Cader Idris in full view.* Arthur Aikin

Nodyn daearegol: Cafodd y brif afon ei gwyrto i lawr y Dysynni yn Abergynolwyn gan adael yr afon Fathew yn ddim ond nant o gymharu â'r hyn yr oedd. Enghraifft glasurol o 'afonladrad'.

HEDDIW MEWN HANES 1796

 Sylw prin o'r math o gynefin oedd Traeth Mawr, afon Glaslyn, tua 15 mlynedd cyn i Maddocks godi ei gob mawr. Roedd eisoes cobiau llai yn cau rhannau o'r morfa yn bod, ond yn amlwg nid o dan pentre Minffordd.

Mae'r sylw am gregyn cocos yn yr odyrau calch yn hynod o ddiddorol.

5/8/1796

Lle: Dolgellau > Beddgelert

Ffynhonnell: Aikin, A (1797) *Journal of a Tour through North Wales*

Nodiadau: *August 5 [1796].... on the river side we saw a number of cockle shells calcining in some lime kilns.... [5ed neu 6ed?] we proceeded through the scattered and populous hamlet of Minffordd to the edge of Traeth Mawr, and then crossed a large extent of salt marshes covered by the sea at high water not however fortunate enough to see any of the [salmon] fish attempting to force their way up [o dan bont Aberglaslyn]*

HEDDIW MEWN HANES 1880

 Trafferthion teithio yn 1880


24/7/1880

Lle: Llundain - gogledd Cymru

Ffynhonnell: Dyddiadur Hela CEM Edwards, Dolserau, Dolgellau. (Archifdy Dolgellau)

Nodiadau: *July 1880 Dolserau Saturday 24th Left Paddington this morning by 10 o'clock train for Home. On arriving at Bala I found that the destruction caused to the railway by the late heavy thunder storm had not been repaired, so I had to drive. A four horsed bus was the mode of conveyance and a very slow one it was too, and I did not reach Home till 10 o'clock. It rained a good deal during the drive. I had the **box seat**, but did not get very wet. Put up at the Farm, where Mrs Price made me most comfortable*

HEDDIW MEWN HANES 1917

 Cenllysg, cenllif a 'rhandiroedd yn y traeth'. Ysgwn i pwy fu'n cadw rhandiroedd ar y Traeth Mawr? Mae'r cofnod yn cadarnhau mai lleol iawn yw stormydd cenllysg neu **gesair** ac nid o angenrwydd yn gyfyngedig i dir uchel – na'r gaeaf chwaith wrth gwrs.

26/6/1917

Lle: Dyffryn Madog

Ffynhonnell: Toriad papur newydd (anhysbys) ym mhapurau Ioan Brothen (LIGC)

Nodiadau: *YSTORM O GENLLYSG YM MEHEFIN. Gor 10 1917 O saith i naw o'r gloch foreu Mawrth y 26ain, cafwyd ystorum fawr, na fu*

erioed ei chyffelyb yn enwedig yn Nyffryn Madog. Yr oedd yr awyrgylch yn orddu, gwibiai melltt yn sydyn, a rhuai y taranau yn groch. Yna daeth y gwllaw i ddisgyn yn un genllif, ynghyd a chenllysg mawrion. Yr oedd sylch [sic] yr ysturm yn gyfyngedig i barth hirgul. Yr oedd y gwllaw fel diluw o Groesor i lawr i Llanfrothen, ac i forfeydd Madog a'r Port. Ni chyrhaeddodd i Benmorfa na Phentre'r Felin. Yr oedd gwastadedd a ffordd Morfa Llanfrothen fel mor mawr, ac yn anhramwyadwy. Ni welodd neb gymaint o lif yn y lle. Nid oedd y cenllys gymaint yn y parth yma'r gwaelodion tua Phorthmadog. Pan oedd yr ysturm yn ei hanterth, yr oedd golygrfa ddifrifol ym Mhorthmadog. Lliffai dwr budr eirynog i lawr yr heolydd, gan ysgubo mwd a baw i'w ganlyn, gan orlifo i selervdd, a rhai siopau yn y brif heol, etc. Yr oedd naw modfedd o eira hyd yr heolydd am ysbaid byr. Yr oedd Moelygest yn glaerwen o dan eira, ac yn ymddangos yn rhyfedd. Gwnaed difrod a cholled ar eiddo mewn rhai siopau. Difethwyd llawer o gropiau, a man lysiau yn y gerddi, a'r rhan-diroedd yn y Traeth. Ofnid yn fawr am y tatws, ond gobeithir nad yw y difrod mor ddrwg ag y tybid. Ceir gweled eto. Parodd yr ysturm ddychryn mawr i lawerodd ynghyd a phryder am eu tatws etc. Ciliodd yr ysturm yn fuan a diflanodd yr eira "fel cysgod". Gadawodd yr ysturm alanastra i synu ato, a thestyn ymchwil i naturiaethwyr. GORFF 10 1917

Dyma lun o'r digwyddiad - wedi sgwenu ar gefn y llun 'Heavy Thunderstorm 26.6.1917 (Stryd Fawr Porthmadog, o gwmpas lle mae siop Quaecks a Barbwr Ellis rwan

Rhian Roberts



Llun cynnar prin o bobl symudol, nad ydynt wedi eu gosod (posed)

Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!



Cysylltwch gyda ni: llennatur@yahoo.co.uk

HEDDIW MEWN HANES 1935

Dyma gymhariaeth o ddau lun, un o lyn Bwlch y Moch, y naill cyn y gwagio a'r llall yn weddol ddiweddar o'r un safle.

6/6/1935

Lle: Dyffryn Nantlle

Ffynhonnell: Atgofion Dyffryn Nantlle FB

Nodiadau: Fe wagiwyd Llyn Bwlch y Moch ar y 6 Mehefin 1935. Fe roedd y llyn ar dir Drwsycoed Isaf, fy ngartre.



Gweithgaredd cyfnod Cofid-19



Pam fod rhai traethau yn well na'i gilydd am gregyn?



Amrywiaeth dda o Gregyn ar draeth

Porth Lleidiog ger Aberffraw, Ynys Môn 10/8/21, mwy na dwi wedi weld ar fy nhraeth lleol yn Ninas Dinlle - pam 'dwch?

Rhian Cadwaladr



Mae na amrywiaeth o gregyn syn adlewyrchu amrywiaeth o gynefin o bosib. Llygid maharan ar y creigia solat, cregyn tena hardd yn y tywod, ac rai eraill yn aber fwldud y Ffraw. Wedyn gwichiaid a malwod ar y gwymon syn glynu ir graig. Ac ambell gragen cowrie. Dim un bisgedan siap cragen fama, bechod, ma Berffro yn enwog am rheinia. Er mor hardd di Dinas Dinlla does dim yr run amrywiaeth cynefin wrth law, ac ella bod y llanw yn golchi y cregyn ffrwdd rhywsut.

Aled E. Jones



Cragen lago fydda i yn galw y 'cowrie'. Wedi casglu potelaid ohonynt dros y blynyddoedd tua Aberffraw ag Ynys Llanddwyn.

Greenaway (pennill 5)

Sandhurst Geocachers\Betjeman

Olwen Evans



Mae 'na ambell gilfach fechan ar ymyl traeth creigiog lle mae llawer o gregyn yn hel. Un yng nghesail gorllewinol Porthdinllaen ac un arall ar ymyl deheuol Ynys Mochras - dim rhyfedd i'r Saeson alw'r lle yn Shell Island. Wedi cael ugeiniau o gregyn Mair, corn y fuwch ac amrywiaeth enfawr o gregyn eraill yn y ddau le yma dros y blynyddoedd.

Twm Elias



Mae na draeth bach ar yr aber yn Berffro o'r enw traeth cregyn lago. A mae'n le da am cowries. Ydi cragen lago yn derm hen am scallop? Basa yn link dda ir stori am y bisgedi. A dwi'n licio stori dda. Ond efallai mai fi sy isho hyna fod yn wir.

Aled E. Jones



Stori? Cragen lago neu gragen y pererin - pererion i St lago de Campostella yn codi cragen o'r traeth yno i ddangos y buont yno ac yn defnyddio'r gragen (y darn ohoni sy' fel bowlen) i gasglu bwyd elusennol ar eu ffordd adra. Teisennau Berffro wedi eu mowldio mewn cragen lago yn ein hatgoffa o hynny.

Twm Elias

Xylota sylvarum



Scaeva pyrastris



Helophilus pendulus



Leucozona glauca



Cheilisia pagana



Eupeodes corollae



Volucella bombylans



Myatropa florea



Eristalis tenax



Episyrphus balteatus



Syrphus sp.



Leucozona lucorum



Rhingia campestris



Sericomyia silentis



Meliscaeva auricollis



Xanthogramma pedissequum



Pryfyd hofrol o Gymru

Casgliad Cymuned Llên Natur f

Syrphus ribesii



Epistrophe glossulariae



Theori: Curo buswail = Malu C**** ?

Mae Twm Elias wedi paratoi erthygl i gylchgrawn Fferm a Thyddyn am arferiad amaethyddol sydd bron yn ddiflanedig erbyn hyn. "Bron..." medde finnau – do, gawsom gofnod 'brith gof' gan Beryl Hughes Griffiths fel hyn "Roedd fy nhad yn sôn am fynd â dog [dyna'r tro cyntaf i ni glywed am y 'dog' nes ei weld yn Cydymaith Byd Amaeth Huw Davies] i chwalu biswail, a'r hyn oeddwn i'n ddeall oedd mynd â rhyw fath o declyn pren i chwalu'r lymphiau o dail gwartheg ar y caeau". I mi, ac i lawer efallai, 'biswail' yw'r slyri neu gymysgiad o ddŵr a baw sydd o flaen y brwsh wrth o dan benolau'r gwartheg yn y beudy - nid rhywbeth caled i'w guro! I eraill mae'n golygu tail gwartheg, ac yn wir dyna'n union mae'n ei olygu yn y Llydaweg - fel 'beuzel'. Efallai bod yr ystyr Cymraeg wedi symyd ymlaen rhywfaint o'r gwreiddiol. Dywed Derec Stockley fel hyn: "beuzel' yn Llydaweg neu 'kaoc'h-saout' [c****u buwch]. Diddorol taw 'bouse de vache' yw'r gair Ffrangeg. O'r un tarddiad â'r Gymraeg a'r Llydaweg?". Un wedd fach ddiddorol arall ar hwn yw ein ymadrodd cyffredin amharchus am un sy'n traethu'n helaeth a disylwedd... 'malu c****u'. Cysylltiad? P'run bynnag, dyma flas ar erthygl Twm fydd i'w gweld yn llawn yn rhifyn 68 o Fferm a Thyddyn:

Yn nyddiaduron Owen Edwards, Fron Olau, Penmorfa rhwng 1821 ag 1826 (Archif Gwynedd, Caernarfon) ceir 16 o gofnodion at yr arfer o 'guro biswail', pob un ym misoedd Mawrth ac Ebrill. Chwalu baw gwartheg yn y caeau ar gyfer gwair a olygir wrth curo biswail ac fe wneid hynny efo teclyn llaw arbennig sef ffon biswail, neu dog biswail fel y cyfeirio ato yn **Cydymaith Byd Amaeth**, Huw Jones. Dyma ddwy engrafft o'r dyddiaduron yn cyfeirio at yr arfer:


31ain Mawrth, 1821: "Y Meibion yn cario gwair o Gaegoronw, y lleill yn gorphen curo biswail yn y Morfa"

10fed Ebrill, 1822: "Yn dwad a siwrna o Wair o Gaegoronw i'r Beudy ucha a siwrna i'r Beudy newydd, y lleill yn curo biswail"


Prin bod chwalu neu guro biswail yn gyfarwydd i ni heddiw a phrin iawn erbyn hyn yw'r offer sydd wedi goroesi i wneud y gwaith. Rydym yn llawer mwy cyfarwydd y dyddiau hyn â chwalu neu 'sgaru tail o'r doman dail o flaen y beudy neu daenu slyri hyd y caeau.

Ond yn ôl at y chwalwr biswail Mae Elfyn Scourfield yn cyfeirio ato yn ei lyfryn *Yr Oriol Amaethyddiaeth* (Amgueddfa Werin, 1976): 'Mewn rhai ardaloedd yng nghanolbarth a gogledd Cymru defnyddid offer arbennig i chwalu gleuad neu dail sych yn enwedig ar dir gwair. Yr enwau lleol am y rhain yw troed pâl neu bren biswail.' [Dim son am 'dog'].


Daw'r llun isod drwy law Alwyn Hughes, Llangadfan a ddywed: "Credaf fod gen i enghraifft o bren biswail. Fe'i gefais flynyddoedd yn ôl gan y diweddar Arwyn Roberts, Bryngwyn, Llanuwchllyn, ac ni wyddai beth ydoedd. Rwyf wedi rhoi coes arno, fy hun, felly nid yw honno'n wreiddiol. Mae'r pen yn mesur 23cm o hyd ac yn 15cm yn y man lletaf".




Trysor y twbyn tatws

 Wrthi'n gwagio twbyn ble planais datws. Dipyn yn siomedig oedd y cnwd gan inni gael cyfnod sych. Ond roedd na fantais arall, sylwch beth oedd reit yn y gwaelod - 8 neu well o wyau neidr, wedi deor. Da de!

Celt Roberts

 Y neidr werdd (*grass snake*). Arferai un yn flynyddol ddefnyddio casgen wastraff drws nesaf fel nyth i'w wyau.

Hefin Williams

 Wedi aeddfedu, mewn clwstwr ar ôl cael eu dodwy ag yn berffaith wyn, y cywion wedi mynd ers tua pythefnos i'r plisgin fod y lliw yma.

Oswyn Williams



Wyau neidr y gwair



Neidr y gwair



Dewiswch Cliciwch!
Gwefan
Llen natur





Er troi'n alltud a mudo-hithau'n awr



Iorwerth H. Lloyd

1

Ddaeth yn ôl i'r bondo....

4



Aderyn y _____
o'r Banna
Aeth i rodio'r
gwylia

Hwiangerdd draddodiadol

2



O haul, bydd
iddo'n nawdd,
Bydd dithau
deg, O wynt;

Hanes Branwen

R. Williams Parry

Ac wele un â'i wich
yn groch,

Yng nghrafanc dur
y _____

5



I.D.Hooson

3

Dacw _____ ar y llyn,



Yn ei gwisg o sidan gwyn.

Hen bennill

6

_____ annwyl,
ei di drosta i...

Ar neges fach
i Gymru lân....

Cynan

Enwch yr Aderyn

Pwynt

1 _____ 20
2 _____ 25
3 _____ 10

Enwch yr Aderyn

Pwynt

4 _____ 35
5 _____ 35
6 _____ 15